


BETHESDA

Astudiaeth o gymeriad trefol



Richard Hayman

ar ran

Cyngor Gwynedd

Mai 2017



Llechi Cymru
Wales Slate

Crynodeb

Cynhaliwyd astudiaeth o nodweddion trefol Bethesda yn 2017 i ategu'r enwebiad am statws Safle Treftadaeth Byd i Ddiwydiant Llechi Cymru sydd i'w gyflwyno i Gorff Addysgol, Gwyddonol, a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig (UNESCO). Tref fach yn nyffryn Ogwen yw Bethesda, ar gyrion Eryri yng Ngwynedd. Daeth i fodolaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i roi cartrefi i weithwyr y chwareli llechi lleol, a chwarel y Penrhyn yn bennaf, oedd ymysg y mwyaf yn y Gogledd.

Mae'r adroddiad yn amlinellu hanes y gwaith chwarela yn yr ardal a datblygiad Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn. Mae'r astudiaeth nodweddion yn edrych ar y patrwm anheddu a'i berthynas â seilwaith y ffyrdd a pherchnogaeth y tir. Mae'r adroddiad yn trafod dylanwad yr economi lleol, dyheadau diwylliannol, adeiledd y gymdeithas a defnydd deunyddiau lleol ar arddulliau adeiladu, bob un ohonynt wedi cyfrannu at gymeriad arbennig Bethesda.

O'r 1820au ymlaen, cafodd tirlun o ffermydd a mân chwareli ei weddnewid yn dref, ond chafodd twf yr economi mo'i gynnal yn yr ugeinfed ganrif. Canlyniad hyn yw bod cymeriad y dref heddiw yn deillio o ychydig ddegawdau o dwf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Tyfodd y dref ar hyd darn o ffordd i'r dwyrain o Afon Ogwen, o amgylch y capel a roddodd ei henw i'r dref. Rhoddodd nifer o dirfeddianwyr brydles lleiniau tir ar gyfer tai i weithwyr, yn bennaf ar hyd y ffyrdd oedd eisoes ar gael, sef patrwm anheddu a gyfunodd yn y pen draw i ffurfio tref, lle daeth y brif ffordd yn ganolfan fasnachol.

Gweddol unffurf yw'r tai o ran eu harddull, gydag ambell fwthyn unllawr cynnar yn y traddodiad gwledig, ond maen nhw wedi'u grwpio mewn amryw o ffyrdd, o barau i derasau hirach, gan ffurfio gridiau o strydoedd cyfochrog yma ac acw. Mewn ffyrdd cynnil y datgelir gwahaniaethau cymdeithasol, gyda rhai tai yn agor yn uniongyrchol i'r stryd, eraill y tu ôl i waliau gardd, ac eraill yn agor i lwybrau a gerddi o flaen y tai. Gwelir uchelgais economaidd yn adeiladau masnachol y Stryd Fawr ac uchelgais diwylliannol yn y capeli sydd wedi goroesi yn y dref, Capel Bethesda a Chapel Jerusalem ill dau'n uchelgeisiol iawn ac yn adeiladau amlwg yng nghanol y dref.

Mae'r deunyddiau adeiladu'n cyfrannu llawer at gymeriad y dref. Mae meini o'r maes, meini nadd o'r chwareli (ar gyfer adeiladau uwch eu statws) a gwastraff o'r chwareli i gyd yn cael eu defnyddio mewn amryw o ffyrdd. Mae'r modd deheuig y defnyddir llechi wedi'u llifio yn arbennig o nodedig, er enghraifft i greu cynteddau storm â bwâu Gothig.

Tynnir y themâu amrywiol at ei gilydd i ddangos bod Bethesda wedi cadw cymeriad cryf a neilltuol sy'n deillio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a hynny ar sail cyfuniad unigryw o dopograffi, y seilwaith blaenorol, hanes economaidd a chymdeithasol, a'r adnoddau naturiol lleol y codwyd adeiladau'r dref ohonyn nhw. Mae'r adroddiad yn gorffen gydag argymhellion ar ragoriaethau dynodi Ardal Gadwraeth.

Summary

An urban-character study of Abergynolwyn was prepared in 2017 in support of the Wales Slate World Heritage Nomination to be submitted to the United Nations Educational, Scientific and Cultural Organisation (UNESCO). Bethesda is a small town in the Ogwen valley, among the foothills of Snowdonia in Gwynedd. It came into existence in the nineteenth century to house workmen employed in local slate quarries, primarily Penrhyn, one of the largest slate quarries in North Wales.

The report outlines the history of quarrying in the locality and the chronological development of the town. The character study examines the pattern of settlement and its relationship to its existing infrastructure of roads and pre-industrial farmsteads. The report discusses the influence on building styles of the local economy, cultural aspirations, social structure and the use of local materials, all of which have contributed to Bethesda's special character.

From the 1820s a landscape of farms and small quarries was transformed into a town, but economic growth was not sustained in the twentieth century, with a result that the character of the town today is the result of a few decades of growth in the nineteenth century. The town grew up along a stretch of road on the east side of the River Ogwen, centred around the chapel which gave the town its name. A number of landowners leased building plots for workmen's houses, mostly along existing roads, a pattern of settlement that eventually coalesced to form a town, in which the main road became the commercial centre.

Houses are broadly uniform in style, with some early single-storey cottages in a rural tradition, but they are grouped in various ways, from pairs to longer terraces, and in parts forming grids of parallel streets. Social distinction is revealed in subtle ways, with some houses open directly to the street, others behind garden walls, while others open to pathways with gardens in front of the houses. Economic aspiration is displayed in the commercial buildings on the High Street, and cultural aspirations are displayed in the town's surviving chapels, Capel Bethesda and Capel Jerusalem being notably ambitious works and prominent buildings in the town centre.

Building materials contribute much to the character of the town. Field stone, dressed quarried stone (for higher-status buildings) and waste slate from the slate quarries are all used in various ways. The ingenious use of sawn slate is especially notable, for example for storm porches with Gothic arches.

The various themes are drawn together to show that Bethesda retains a strong and distinctive nineteenth-century character based on its unique combination of topography, pre-existing infrastructure, economic and social history, and the local natural resources with which its buildings were constructed. The report concludes with recommendations on the merits of designation of Conservation Area status.

BETHESDA
Astudiaeth o gymeriad trefol

RICHARD HAYMAN

© Cyngor Gwynedd, 2017

Cynnwys

Crynodebau

1 Nod yr astudiaeth	1
2 Cyflwyniad	1
3 Cefndir Hanesyddol	2
4 Cymeriad adeiladau	7
4.1 Arddull a math o adeiladau	7
4.2 Deunyddiau adeiladu	14
4.3 Topograffeg	19
4.4 Hanes Diwylliannol.....	20
5 Ardaloedd Cymeriad	22
5.1 Eglwys y plwyf a Chapel Jerusalem	22
5.2 Y Stryd Fawr	24
5.3 Stryd John a Penygraig	24
5.4 Ffordd Bangor	26
5.5 Ffordd Coetmor a Bryntirion	27
5.6 Penybryn	28
5.7 Brynteg	30
5.8 Hen Barc	31
5.9 Ffordd Carneddi, Stryd Cilfodan a Bont Uchaf	31
5.10 Ffordd Ffrydlas, Ffordd Pant a Garneddwen	34
5.11 Glan Ffrydlas ac Adwy'r Nant	34
5.12 Abercaseg a Pant.....	36
5.13 Braichmelyn	36
5.14 Gerlan	37
6 Datganiad Arwyddocâd	38
7 Argymhellion	38
8 Cyfeiriadau	41
Atodiad 1: Asedau treftadaeth dynodedig ym Methesda	43

Rhestr o'r darluniau

Ffigwr 1 Map Lleoliad

Ffigwr 2 Manylion Map Degwm Llanllechid, 1840

Ffigwr 3 Cynllun o Fethesda yn 1854

Ffigwr 4 - Cynllun o Fethesda yn dangos Braichmelyn, 1854

Ffigwr 5 Map Arolwg Ordnans 1889 yn dangos Stryd John

Ffigwr 6 Map Arolwg Ordnans, 1889, yn dangos Brynteg

Ffigwr 7 Y Stryd Fawr yn nechrau'r ugeinfed ganrif

Ffigwr 8 Ysgol Dyffryn Ogwen

Ffigwr 9 Map Arolwg Ordnans, 1889, yn dangos yr ardal o amgylch yr orsaf drên

Ffigwr 10 Ffermdy Pant Ffrydlas

Ffigwr 11 Tai ym Mraichmelyn
Ffigwr 12 Caerberllan
Ffigwr 13 Tai ym Mryntirion
Ffigwr 14 Tai Bont Uchaf
Ffigwr 15 Manylion map Arolwg Ordnans 1914 yn dangos stad Gerlan
Ffigwr 16 Llys Llewelyn
Ffigwr 17 Capel Jerusalem
Ffigwr 18 Capel Bethesda
Ffigwr 19 Y Stryd Fawr
Ffigwr 20 Rhif 2 Rhes Ogwen
Ffigwr 21 Tai ar Ffordd Penybryn
Ffigwr 22 To llechi yn Rhes Penybryn
Ffigwr 23 Llechi wedi eu siapio ar gyntedd
Ffigwr 24 Llechi fel clytiau pafin a cholofnau giatiau
Ffigwr 25 To clwt llechen
Ffigwr 26 Cynteddau llechi
Ffigwr 27 Gwesty'r Fictoria
Ffigwr 28 Adeiladwaith brics a thywodfaen, Capel Bethania
Ffigwr 29 Adeiladwaith llechi modern, Llys Dafydd
Ffigwr 30 Gosodiad tirlun Bethesda
Ffigwr 31 Llwybr gyda chrawiau (ffensys llechi)
Ffigwr 32 Arwyddion Saesneg ym Methesda
Ffigwr 33 Manylion y gofeb ryfel, gyda arysgrif yn Gymraeg
Ffigwr 34 Map o Ardaloedd Cymeriad yng nghanol Bethesda
Ffigwr 35 Eglwys Crist
Ffigwr 36 Cofeb Rhyfel
Ffigwr 37 Y Stryd Fawr
Ffigwr 38 Tai cynnar o dan Stryd John
Ffigwr 39 Stryd John
Ffigwr 40 Rhes Gordon
Ffigwr 41 Llwybr yn cysylltu'r Stryd Fawr gyda Ffordd Coetmor
Ffigwr 42 Bryntirion
Ffigwr 43 Ardaloedd cymeriad ar ochr gogleddol Bethesda
Ffigwr 44 Tai ar Ffordd Penybryn
Ffigwr 45 Heol y Dŵr
Ffigwr 46 Hen Barc
Ffigwr 47 Stryd Cilfodan
Ffigwr 48 Pâr o dai ar Stryd Cilfodan
Ffigwr 49 Ardaloedd cymeriad ar ochrau dwyreiniol a deheuol Bethesda
Ffigwr 50 Ffordd Ffrydlas
Ffigwr 51 Adwy'r Nant
Ffigwr 52 Abercaseg
Ffigwr 53 Bwthyn ym Mraichmelyn
Ffigwr 54 Bythynnod cynnar yng Ngerlan
Ffigwr 55 Manylion pensaernïol yn Rhes James
Ffigwr 56 Ardal Gadwraeth Braichmelyn a'r estyniad arfaethedig
Ffigwr 57 Ardal Gadwraeth Lôn y Graig a'r estyniad arfaethedig
Ffigwr 58 Adeiladau rhestredig ym Methesda
Ffigwr 59 Ardaloedd Cadwraeth Rhes Elfed a Rhes Gordon

Cydnabyddiaeth

Darparwyd y mapio hanesyddol gan RCAHM Cymru, o dan drwydded OS RCPL2/3/58/005.
Darparwyd mapio cyfoes gan Gyngor Gwynedd o dan drwydded OS: © Hawlfraint y
Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans 100023387. Rhoddwyd caniatâd i
ddefnyddio'r darluniau gan Archifau Gwynedd.

I Nod yr astudiaeth


Mae cymeriad hanesyddol yn cyflwyno hunaniaeth, yn creu ymdeimlad o berthyn ac yn cyfrannu at ansawdd y lleoedd ble rydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â hwy. Gall hefyd fod yn ased i fywiogrwydd ac adfywiad economaidd. Mae gwarchod a chynnal cymeriad lleol yn effeithiol yn gofyn am sylfaen o dystiolaeth gref sy'n trwytho gweithgarwch adfywio, cadwraeth, cynllunio a dylunio, ac sy'n ategu penderfyniadau sy'n ymwneud â chadwraeth, rheoli ac addasu ar gyfer newid.

Mae datblygu astudiaethau cymeriad ar gyfer aneddiadau'n helpu darparu sylfaen o dystiolaeth gref ar gyfer polisiâu cynllunio lleol a fydd yn darparu elfen allweddol o ategaeth er rheoli'r aneddiadau arfaethedig hyn yn y dyfodol.

Pwrpas cyntaf yr astudiaeth hon yw darparu tystiolaeth i gefnogi un agwedd o enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru. Nod yr enwebiad fydd cyfleu'r rhan bwysig mae aneddiadau yn eu chwarae yng ngwerth nodedig bydeang y safle. Mae Bethesda yn un o'r anheddiadau a ddetholwyd ar gyfer yr astudiaeth gan ei bod yn meddu ar gymeriad unigryw sy'n datgelu agweddau penodol o ddatblygiad y diwydiant llechi a'r economi, y gymdeithas a'r diwylliant a grëodd.

2 Cyflwyniad

Tref yn nyffryn Ogwen yw Bethesda ar odrau gogleddol Eryri, Gwynedd, mewn tirlun gaiff ei drarglwyddiaethu gan y dref ar lannau dwyreiniol yr afon a Chwarel y Penrhyn ar y lan gorllewinol. Daeth y dref i fodolaeth oherwydd Chwarel y Penrhyn ac, i raddau llai, i chwarel llai Pantdreiniog, sydd wedi ei thirlunio ond roedd ei thomenni yn ymestyn bron i ganol y dref.




Ffigwr 1 Map Lleoliad.

Tyfodd y dref yn gyflym o'i chnewyllyn gan gynnwys aneddiadau allanol, yn cynnwys Braichmelyn, Gerlan a'r Carneddi sydd i gyd bellach yn rhan o'r dref. Mae ardal y dref hefyd wedi ehangu ers 1945, ond mae rhai o'r datbygiadau newydd yma, yn enwedig ar ochr y gogledd o'r dref ble nad oes unrhyw adeiladau cynharach wedi goroesi, heb gymeriad hanesyddol ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn yr astudiaeth yma.

3 Datblygiad Hanesyddol

Cyn dyfodiad diwydiant roedd ochr ddwyreiniol dyffryn Ogwen yn dirlun o ffermydd bychain a ffyrdd cysylltiol. Croeswyd yr afon ym Mhont y Tŵr, ym mhen deheuol Bethesda fodern, ac oddi yma roedd ffordd yn arwain tua'r gogledd i Lanllechid (Braichmelyn, Ffordd Carneddi a'r Hen Barc yn awr). Dyma oedd y brif ffordd drwy ddyffryn Ogwen cyn dyfodiad Ffordd Caergybi, sef yr A5 bellach, a adeiladwyd yn 1815-20. Roedd y ffordd newydd yn croesi'r hen ffordd ger Pont y Tŵr a dilyn llwybr afon Ogwen ar ei glannau dwyreiniol. Yr anheddiad ar hyd y ffordd yma, y prif lwybr rhwng Llundain a Dilyn oedd cnewyllyn y dref.


Dechreuodd y gwaith chwarel a raddfa fawr yn nyffryn Ogwen dan berchnogaeth Richard Pennant, Barwn cyntaf Penrhyn (1737-1808). Tyfodd Chwarel Lechi'r Penrhyn, a leolir ar ochr gorllewinol yr afon, yn sydyn i ddod yn un o'r chwareli llechi mwyaf yng ngogledd Cymru. Erbyn 1898 cyflogai 2809 o ddynion. Ar ochr ddwyreiniol yr afon roedd Chwarel Lechi Pantdreiniog, a agorodd yn 1850 ac a gaeodd yn 1911. Disodlodd chwarel hŷn, sef Coetmor, ond chwarel cymharol fechan oedd hon yn ôl safonau diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Adroddwyd ei bod yn cyflogi wyth o ddynion yn 1898.



Ffigwr 2 Manyl Map Degwm Llanllechid yn dangos datblygiad Bethesda yn 1840. Yr adeilad ar y dde yn y gwaelod ger tro'r afon yw Capel Bethesda. Y llinell croesgornel ar y dde yw'r terfyn stad Cefn Faes.

Prif ganolbwynt yr anheddiad cynnar oedd Ffordd Caergybi. Cyn gynhared â'r 1820au roedd dogfennau yn dechrau cyfeirio at bentref Bethesda, a enwyd ar ôl y capel ger ochr y ffordd, ynghyd â gwerthiant tir i ffermwyr, tafarnwyr, crefftwyr a chwarelwyr. Roedd y tir yma'n rhan o stad Cefn Faes, a gwnaed y mwyaf posib o'r cyfle o economi diwydiannol oedd yn tyfu a phresenoldeb llwybr trafndiaeth o bwysigrwydd cenedlaethol (Ffigwr 2 a 3). Roedd

Stad y Penrhyn hefyd yn berchen ar dir ar ochr gorllewinol yr afon, ac erbyn 1840 adeiladwyd tai i weithwyr ar ochr dwyreiniol yr afon ym Mraichmelyn, yn agos at Bont y Tŵr (Ffigwr 4).



Ffigwr 3 Manylion o gynllun Bethesda, 1854 yn dangos datblygiadau newydd ers 1840 gan gynnwys Capel Jerusalem a Rhes Ogwen. (Archifau Gwynedd X/Plans/S/10)




Ffigwr 4 - Manylion o gynllun Bethesda, 1854. Ar y chwith yn y gwaelod mae Pont y Tŵr ac ar y ffordd sy'n arwain ohoni mae tai a adeiladwyd gan Stad y Penrhyn o'r enw Braichmelyn a rhes lai

o'r enw Caerberllan. Dangosir ffermydd Abercaseg, Pant Ffrydlas a Gerllan (dde uchaf) hefyd, yn ogystal â bythnnod gwasgaredig. (Archifau Gwynedd X/Plans/S/10)

Dilynodd datblygiadau pellach ar ôl Deddf Gwella Bethesda yn 1854. Rhoddodd y ddeddf bwerau lleol i wella'r cyflenwad dŵr a'r draenio ac i reol agweddau 'gwledig' bywyd y dref fel cadw moch. Prydleswyd cyn Fferm y Penrhyn ar gyfer tir adeiladu yn yr 1850au, ac fe wnaed hyn yn bosib drwy fodlaeth cymdeithasau adeiladu lleol fel Cymdeithas Adeiladu Cymru, Tywysog Arthur, Cymdeithas Adeiladu Union a Cefn Faes, a sefydlwyd yn bennaf gan ddynion lleol. Er enghraifft, ymddiredolwyr Cymdeithas Adeiladu Llewelyn oedd dau chwarelwr, saer a chyfrifydd. Hyd yn oed cyn hwyred a'r 1850au pan roedd y twf diwydiannol wedi cyflymu'n sylweddol, roedd gweithwyr a dynion lleol eraill yn dal i fod â rhan mewn datblygu tai, oedd ddim yn hollol ddibynnol ar fuddsoddiad cyfalaf gan berchnogion chwarel.

Roedd patrwm yr anheddiad yn amrywio. Erbyn 1889 roedd tai wedi eu hadeiladu mewn rhesi ar hyd mwyafrif y ffyrdd cyn-ddiwydiannol. Mewn rhai lleoedd roedd crynodiad mwy dwys o dai. Tu ôl i'r Stryd Fawr, Stryd John a Phenygraig mae rhwydwaith anffurfiol o lonydd gyda thai unigol a pharau o dai sy'n unllawr a deulawr. Maent yn dyddio o ganol yr 1850au, wedi eu gwasgu i mewn rhwng y Stryd Fawr a thomenni gwastraff llechi Chwarel Pantdreiniog (Ffigwr 5). Roedd gan ddatblygiadau eraill mwy dwys gynllun mwy trefnus, fel grid o strydoedd ym Mrynteg ac yn Gerlan (Ffigwr 6).



Ffigwr 5 Map Arolwg Ordnans 1889 yn dangos y clwstwr clôs o dai o amgylch Stryd John a Chapel Tabernacl.

Yn 1841, roedd 4957 o drigolion ym mhlwyf Llanllechid, ond erbyn 1871 roedd yno 7739, ac roedd dros 3,000 o bobl yn byw ym Methesda. Yn sydyn iawn daeth Bethesda i feddu ar seilwaith economaidd a chymdeithasol tref. Daeth y Stryd Fawr yn ganolbwynt i'r diwydiannau gwasanaeth, yn lle'r chwarelwyr oedd wedi adeiladu tai yno - roedd 72 o chwarelwyr yn byw ar y Stryd Fawr yn 1851 ond dim ond 16 yn 1871. Cafodd Rhes Ogwen ei gosod allan yn 1853, roedd yn adlewyrchu'r ffaith fod siopwyr a phobl broffesiynol yn

symud i'r dref a bod yr economi leol yn ehangu yn sydyn. Erbyn 1871, roedd 15 o dafarnwyr, tri groser, tri gwerthwr llysiau, cigydd, teiliwr yn ogystal â chyfrifwyr a phostfeistr ar y Stryd Fawr (Ffigwr 7).



Ffigwr 6 Map Arolwg Ordnans, 1889, yn dangos y blociau cyfochrog o strydoedd sy'n llunio Brynteg ac a adeiladwyd yn yr 1860au. Ar yr ochr orllewinol mae Chwarel Pantdreiniog. Erbyn hyn mae'r tai ar Stryd Cilfodan, ger y chwarel, wedi eu dymchwel.



Ffigwr 7 Ffotograff o'r Stryd Fawr o ddechrau'r ugeinfed ganrif, siopau sydd bennaf ar y stryd ond mae Capel Bethesda i'r chwith yn y canol. Archifau Gwynedd XS3270/3)

Roedd seilwaith diwylliannol a chymdeithasol wedi ei seilio ar gapeli, yr eglwys a'r ysgolion. Cynrychiolwyd y prif enwadau - Yr Annibynwyr, Methodistiaid Calfinaidd a'r Wesleaid yn dda yn y dref. Capel Bethesda oedd y capel cynharaf a datblygodd eraill ar neu ger y Stryd Fawr, sef Jerusalem (1842), Siloam (1838) a'r Tabernacl (1856). Cafodd y galw am gapeli yn yr ardaloedd cyffiniol oedd yn ehangu ei gwrdd gan Brynteg (1864), Carneddi (1816), Salem (1871) Treflys (1866) a Gerlan (1869). Cyrhaeddodd yr eglwys sefydledig yn gymharol hwyr, yn rhannol gan fod eglwys a fwriadwyd i'r chwarelwyr wedi ei sefydlu ar ochr orllewinol yr afon yn 1813. Ar ôl derbyn fod Bethesda bellach yn ganolfan drefol i ddyffryn Ogwen, comisiynodd Stad y Penrhyn Eglwys Crist a adeiladwyd yn 1855-56.

Roedd ysgolion yn ategol i Gapel Jerusalem (oedd hefyd yn cynnig dosbarthiadau nos i oedolion yn 1861) ac eglwys y plwyf (Ysgol Genedlaethol) ond disodlwyd y rhain ar ôl Deddfau Addysg 1870 a 1889. Agorwyd Ysgol Gerlan yn 1872 i wasanaethu'r stad newydd. Adeiladwyd ysgolion sirol yn Ysgol Dyffryn Ogwen, a agorwyd yn 1895 (Ffigwr 8) a Chefn Faes, dyddiedig 1907 (Gweler Ffigwr 32). Adeiladwyd Ysgol Penybryn yn hwyr ar safle Fferm Penybryn ar ôl 1914.




Ffigwr 8 Ysgol Dyffryn Ogwen, fel a adeiladwyd yn 1895 gyda thalcenni wedi eu siapio (Archifau Gwynedd XS3270/5)

Daeth y rheilffordd gyffredin i Fethesda yn 1884, gyda lein cangen o Fangor. Roedd y derfynfa ar ochr ogledd y dref ac fe'i hadeiladwyd ar dir a adferwyd o domen Chwarel Coetmor. Ysgogodd yr orsaf i ben yma y dref i ehangu, gan gynnwys strydoedd preswyl, oedd hefyd yn galw am gapel newydd, Capel Bethania a adeiladwyd yn 1885 (Ffigwr 9).

Ychydig iawn o reswm oedd dros ddatblygu newydd yn y degawdau wedi 1900. Arweiniodd anghydfod diwydiannol maith oherwydd undeboli i gau y chwarel rhwng 1900 a 1903, ac erbyn hynny roedd llawer wedi gadael Bethesda i edrych am waith mewn mannau eraill, ac roedd rhai cwsmeriaid yn derbyn eu llechi o chwareli eraill. Er i'r chwarel ail-agor, roedd bellach mewn cyfnod o ddirywiad. Caeodd Chwarel Pantdreiniog yn 1911. Erbyn y 1930au cafwyd datblygiadau newydd gyda thai cyngor oedd yn cynnwys Adwy'r Nant (1932-34) a Braichmelyn.

Cyfyngwyd datblygiadau ar ôl y rhyfel yn bennaf i ochr gogleddol y dref ac i dir fferm oedd heb ei ddatblygu yn flaenorol rhwng canol y dref a Braichmelyn. Mae cyn Chwarel Pantdreiniog a'i thomenni gwastraff wedi eu tirlunio ond ni adeiladwyd arnynt.



Ffigwr 9 Map Arolwg Ordnans, 1889, yn dangos datblygu y tu hwnt i ben gogledd-orllewinol y Stryd Fawr, yn bennaf yn dilyn agor y rheilffordd yn 1884.

5 Cymeriad Adeiladau

4.1 Arddull a manylion adeiladu

Adeiladwyd Bethesda ar dirlun o ffermydd bychain, gellir gweld tystiolaeth o hyn yn y gweddillion gwasgaredig o waliau a ffermdai a oroesodd yn Abercaseg a Phant Ffrydlas, sy'n dai fferm deulawr gyda blaen dwbl a ffenestri codi ac agoriadau i'r ochr (Ffigwr 10). Mae'r ffermdai bychain arddull Sioraidd yma'n wrthgyferbyniad i'r tai diwydiannol cynharaf sy'n fwy gwerinol, wedi eu seilio ar draddodiad cynhenid ac felly o ddyluniad mwy ceidwadol.



Ffigwr 10 Ffermdy Pant Ffrydlas, adeiladwyd o rwbel meini o'r maes ond gyda chapanau drws llechen o'r chwarel a ffenestri codi newydd.



Ffigwr 11 Bythynnod unllawr, Braichmelyn. Mae'r rhain yn cynrychioli'r math cynharaf o dai diwydiannol. Mae waliau'r gerddi a'r cynteddau yn ychwanegiad mwy diweddar.



Ffigwr 12 Caerberllan, adeiladwyd erbyn 1840 gyda llwybr mynediad cyffredin a gerddi yn y blaen yn lle'r cefn. Yn wreiddiol, roedd gan y gerddi hyn fynceri glo a adeiladwyd o gerrig.

Mae tai diwydiannol o'r 1830au i'r 1890au yn arwydd o hanes cynnydd, ond mae hefyd yn datgelu hierarchiaeth cymdeithasol oedd yn dod i'r amlwg, a gafodd ei feithrin efallai gan y gwahaniaeth mewn ansawdd tai. Y math cynharaf o dŷ diwydiannol yw'r bwthyn unllawr, weithiau gyda lle cysgu yn y daflod, neu'r grogloff, a adeiladwyd yn unigol neu mewn parau a gellid eu gweld wrth ochr rhai o'r ffyrdd cyn-ddiwydiannol. Mae ganddynt darddiad amlwg yn nhraddodiad brodorol yr ardal. Mae'r crynodiad mwyaf ohonynt ym Mraichmelyn, ble mae rhes o fythynnod ar yr hen ffordd o Bont y Tŵr i Lanllechid (Ffigwr 10). Erbyn 1840 roedd llawer o dai wedi eu hadeiladu yma, ond ddim mewn un rhaglen adeiladu. Adeiladwyd y bythynnod yn unigol, neu mewn parau neu resi byr. Yn ogystal, adeiladwyd rhes ar wahân, Caerberllan, gyda mynediad drwy lwybr yn hytrach na ffordd o flaen y bythynnod, gyda gerddi hefyd yn y blaen (Ffigwr 17). Mae'r rhes yma o ddeuddeg o dai mewn rhes yn dangos y gwahaniaeth rhwng tai math gwledig a thai diwydiannol. Enghraifft arall yw Frondeg, rhes fer sydd wedi ei haddasu gryn dipyn, ar Ffordd Pant.

Daeth tai deulawr mwy yn gyffredin ar ôl 1850, gyda'r rhai lleiaf â blaen sengl a chynllun dyfnder dwbl. Y prif wahaniaeth yn y tai yma yw os oes un neu dwy ffenestr ar y llawr cyntaf, ond mae hefyd amrywiadau o ran lled ac uchder. Mae'r tai a adeiladwyd ar hyd ffyrdd sy'n bodoli mewn grwpiau, fel arfer rhwng dau a phedwar, ond mae yna hefyd derasau hirach.


Mae perthynas y tŷ â'r stryd yn elfen bwysig o dai diwydiannol. Ar ochr ddwyreiniol cyn Chwarel Pantdreiniog mae grid o strydoedd - Lôn Groes, Stryd Ganol, Stryd Brynteg - ble mae'r tai yn agor yn uniongrychol i stryd gul, gyda gardd gefn ar y bryn i'r cefn. Ym Mryntirion ac ar Ffordd Carneddi mae hefyd dai teras sy'n agor i'r stryd (Ffigwr 13). Er hynny, mae mwyafrif y tai wedi eu gosod yn ôl y tu cefn i erddi blaen bychain, sydd â waliau isel yn aml gyda rheiliau haearn (Ffigwr 14). Parhaodd llwybrau mynediad cyffredin, a nodwyd eisoes yng Nghaerberllan. tan yr 1860au pan osodwyd stad Gerlan allan. Yng Ngerlan fe adeiladwyd y terasau ar hyd y gyfuchlin gyda llwybrau i'r blaen, yn ogystal â chyrtau mynediad cul i'r cefn (Ffigwr 15).



Ffigwr 13 Tai cynnar yn agor yn uniongyrchol i'r stryd ym Mryntirion.



Ffigwr 14 Tai yn Bont Uchaf wedi eu gosod yn ôl o'r stryd tu ôl i waliau gardd.



Ffigwr 15 Gerlan yn 1889. Cyrhaeddir at y tai drwy lwybrau cyffredin a chyrtau cefn ar ongl sgwâr i Stryd y Ffynnon a Stryd Goronwy. Mae'r gerddi yn y blaen, ar yr ochr waered (chwith yn y llun) o'r tai.

Adeiladwyd tai mwy tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Adeiladwyd tai tri rhaniad ar hyd Ffordd Ffrydlas a Garneddwen, mewn rhan o'r dref oedd heb ei ddatblygu yn flaenorol. Rhywbeth arall gwahanol i'r arfer oedd dychwelyd i'r ffurf gynhenid hunanymwybodol, a welir ar ei gorau yn y parau o dai yn Hen Barc, sy'n fythynnod unllawr traddodiadol, bob un gyda lle cysgu yn y daflod, neu'r groglofft. Dim ond nifer fechan o dai neilltuol a adeiladwyd ym Methesda, sy'n adlewyrchu strwythur cymdeithasol cymharol homogenaidd y dref (Ffigwr 16).




Ffigwr 16 Llys Llewelyn, tŷ neilltuol a adeiladwyd ym Mraichmelyn, yn nodedig gan iddo gael ei adeiladu o gerrig wyneb y graig o'r chwarel.

Mae cymeriad gwreiddiol y tai wedi erydu o'r ugeinfed ganrif ymlaen. Pan gawsant eu hadeiladu cafodd y tai eu wynebu gyda cherrig, ond erbyn hyn mae gan lawer chwiapiad gro neu rendr sment, a newidwyd llawer o'r ffenestri a'r drysau. Yn wreiddiol, roedd mwyafrif y ffenestri yn ffenestri codi deuddeg paen gyda ffenestri codi pedwar paen a dau baen yn gyffredin yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Ffigwr 16). Bellach, mae ffenestri codi yn brin iawn yn y dre.

Daeth y Stryd Fawr i fod yn ganolfan economaidd a diwylliannol i'r dref ac mae ei hadeiladau yn adlewyrchu'r statws hwnnw. Mae'r Eglwys a'r Capel yn cystadlu am sylw yng nghanol y dref. Mae'r eglwys Gothig gyda ffenestri pigog yn gwrthgyferbynnu gyda ffenestri pengrwn y capeli, sy'n arwydd o'r gystadleuaeth rhwng yr Anglicaniaid a'r Anghydffurfwyr. Adeiladwyd eglwys y plwyf ar gost yr Arglwydd Penrhyn gan ei dylunio gan bensaer o Lundain, T.H. Wyatt. Roedd adeiladau'r capeli sydd wedi goroesi hefyd yn waith gan bobl o'r tu allan i'r ardal. Ail-adeiladwyd capeli Jerusalem a Bethesda yn yr 1870au gan Richard Davies o Fangor a Richard Owens o Lerpwl (ond yn frodor o Sir Gaernarfon) (Ffigwr 17 ac 18). Adeiladwyd Bethania yn 1885 gan y Parch Thomas Thomas o Landŵr, Abertawe (gweler Ffigwr 28) ac mae'n cwblhau'r triawd o gapeli a adeiladwyd gan benseiri capeli arbenigol sy'n ymgorffori hyder cynyddol, ffyniant a natur soffistigedig y gymuned anghydffurfiol yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.



Ffigwr 17 Capel Jerusalem wedi ei osod yn ôl o'r ffordd tu ôl i barc bach.



Ffigwr 18 Capel Bethesda



Ffigwr 19 Y Stryd Fawr, cymysgfa o adeiladau masnachol deulawr a thrillawr



Ffigwr 20 Rhif 2 Rhes Ogwen, banc yn wreiddiol, wedi ei nodweddu gan y trefniant Paladaidd o ffenestri ar y llawr canol, dan gapanau drws tywodfaen a bwa.

Cynrychiolir seilwaith economaidd y dref gan ei hadeiladau masnachol. Mae'r tafarndai a'r gwestai, sydd i gyd a ochr de-orllewin y Stryd Fawr, yn deillio o'r cyfnod pan roedd Ffordd Caergybi yn ffordd gludiant bwysig (Ffigwr 19). Y Douglas Arms yw'r unig adeilad sy'n sefyll ar ben ei hun, ac mae'n meddu ar bortico clasurol. Mae tai tafarn eraill, yn cynnwys y Victoria a'r King's Head yn adeiladau deulawr, ond mae hefyd amryw o adeiladau trillawr ar y Stryd Fawr. Dechreuwyd Rhes Ogwen yn 1853 a dyma yw'r rhesdai mwyaf uchelgeisiol ac efallai y cynharaf ohonynt. Adeiladwyd ar linell grom, ac roedd y tai unigol bob amser yn wahanol o ran arddull. Mae gan rai o'r tai addurn cwcwll dros y ffenestri, tra fo gan Rif 2, oedd yn fanc yn wreiddiol, wyneb o glytiau llechi a ffenestr baladaidd ar y llawr cyntaf (Ffigwr 20). Perthyn llawer o'r adeiladau ar y Stryd Fawr i ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac maent yn ymgorffori blaen-siopau cyfoes ar y llawr isaf.

4.2 Deunyddiau adeiladu

Mae deunyddiau adeiladu'n gwneud cyfraniad pwysig i gymeriad y dref a daeth y mwyafrif ohonynt o ffynonellau lleol. Defnyddiwyd meini maes i waliau terfyn, roedd rhai ohonynt yn waliau caeau yn wreiddiol, ac i rai tai (gweler Ffigwr 10), ond adeiladwyd mwyafrif adeiladau Bethesda o gerrig a gloddiwyd (Ffigwr 21). Er hynny, gall hyn amrywio cryn dipyn. Mae tai a adeiladwyd o flociau mawr a thai eraill gyda blociau bach o gerrig, er fel arfer maent wedi eu gosod mewn haenau rheolaidd. Mae gan ychydig o'r adeiladau agoriadau bwa, ond ffafriwyd capanau mawr, yn aml o glytiau llechi.



Ffigwr 21 Mae mwyafrif o dai Bethesda, fel y pâr yma ar Ffordd Penybryn, wedi eu hadeiladu o gerrig a gloddiwyd ac a osodwyd mewn haenau bras. Mae meini copa pileri'r glwyd yn ddarnau bach o gwards, oedd yn sgil-gynnyrch cloddio am lechi.



Ffigwr 22 Mae gan doeau Rhes Penybryn lechi o feintiau gwahanol, mae'r ochr chwith wedi ei ail-doi.

Defnyddir llechi a gloddiwyd yn lleol yn gyffredinol ar doeau. Fel arfer, gosodir llechi o feintiau tebyg, ond mae'r angen i adnewyddu toeau wedi golygu ei bod yn bosib weithiau mewn un stryd i weld tŷ gyda llechi mawr ac un arall gyda llechi bach (Ffigwr 22). Prin iawn yw'r llechi a welir sydd wedi eu siapio, er enghraifft i addurno toeau cynteddau (Ffigwr 23).



Ffigwr 23 Nid yw llechi wedi eu siapio yn gyffredin ond cawsant eu defnyddio yma fel addurn ar gyntedd pren.

Mae yna sawl defnydd arall i lechi, yn enwedig fel clytiau, ac mae'n darparu rhai o'r nodweddion lleol mwyaf unigryw. Defnyddir clytiau fel pafin, tu uchaf i risiau gardd, ac wedi eu gosod i sefyll mewn rhesi ar ffurf ffensys rhwng gerddi (crawiau), neu ar hyd llwybrau, arferiad gyda tharddiad gwledig amlwg (Ffigwr 24). Defnyddir clytiau o lechen fel to ar ganopi cyntedd dros ddrysau ffrynt, ac weithiau fel to i adeiladau ategol fel byncars glo (Ffigwr 25). Y defnydd mwyaf trawiadol o lechi wedi'i llifio yw ar gyfer cynteddau talcen, sydd yn nodweddiadol â bwaon pigfain neu gornïog, ac mae gan rai lechi llifedig cribog coeth (Ffigwr 26). Y defnydd mwyaf cyffredin o lechi wedi'i llifio yw fel pileri clwydi. Roedd cwarts yn sgil gynnyrch cloddio am lechi ac fe'i defnyddiwyd weithiau yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel meini copa ar bileri clwydi o gerrig rwbel (Gweler Ffigwr 21).



Ffigwr 24 Llechi fel clytiau pafin a phileri clwydi



Ffigwr 25 To clwt llechen ar ganopi cyntedd ar ysgwydd



Ffigwr 26 Manylion cyntedd llechen



Ffigwr 27 Blaen chwipiad garw Gwesty'r Fictoria gyda architrafau wedi eu rendro'n llyfn a llythrennau amlwg.

Roedd cerrig nad oeddynt yn lleol yn farc statws pwysig i fannau addoli ac adeiladau eraill o fri. Adeiladwyd eglwys y plwyf o garreg rwbwl werdd o ogledd Cymru gyda naddiadau tywodfaen. Defnyddiwyd naddiadau tywodfaen hefyd i Gapel Bethania. Mae'r gofeb ryfel o galchfaen nadd.

Nid oedd yr holl adeiladau yn wreiddiol gydag arwyneb carreg. Yn draddodiadol, wynebwyd yr adeiladau masnachol, capeli ac ysgolion gyda chwipiad garw, er enghraifft capeli Jerusalem a Bethesda. Roedd y tai tafarn hefyd gyda rendr tebyg ond yn aml roeddent wedi eu haddurno gyda architrafau o rendr llyfn (Ffigwr 27). Roedd yr arfer yma'n boblogaidd yn nechrau'r ugeinfed ganrif ond cafodd ei ddisodli gan waliau chwipiad gro.

Mae brics yn fwyaf amlwg ym mhen gogleddol y Stryd Fawr, mewn adeiladau sy'n agos at ac wedi eu codi ar ôl agor y rheilffordd yn 1884. Erbyn hyn mae rhai blaenwynebau brics wedi eu cuddio gan rendr, fel Rhes Penrhyn, ond mae'r enghreifftiau mwyaf trawiadol o frics yn cynnwys Capel Bethania a Tai'r Eglwys (Ffigwr 28).

Ers diwedd yr ugeinfed ganrif mae llechi wedi mwynhau adferiad fel deunydd adeiladu. Mae'r mwyafrif o hyn ar ffurf waliau gerddi, ond mae hefyd yn cael ei ddefnyddio fel waliau cynnal o amgylch Llys Dafydd yng nghanol y dref, enghraifft o sut mae llechi yn bwysig i'r hunaniaeth leol (Ffigwr 29).



Ffigwr 28 Adeiladwyd Capel Bethania o frics coch llachar Rhiwabon gyda naddiad tywodfaen ac felly nid oedd y deunyddiau yn rhai lleol.



Ffigwr 29 Mae llechi yn parhau i fod yn ddeunydd adeiladu pwysig, ac fe'i defnyddiwyd yma i waliau cynnal Llys Dafydd yng nghanol y dref.

4.3 Topograffeg

Adeiladwyd Bethesda ar fryn sy'n wynebu'r gorllewin uwchben afon Ogwen. Mae mwyafrif ei thai wedi eu hadeiladu ar hyd y cyfuchlin ac yn edrych tua'r gorllewin, ble mae Chwarel y Penrhyn yn tra-arglwyddiaethu ar y tirlun (Ffigwr 30). Caiff gosodiad Chwarel y Penrhyn ei wella gan bresenoldeb y dref ar ochr arall y dyffryn ac fel arall.



Ffigwr 30 Y cefndir i'r tai hyn ym Mrynteg yw Chwarel y Penrhyn a'r eira ar y mynyddoedd.

Fe nodwyd eisoes fod patrwm yr anheddiad wedi ei benderfynu i raddau helaeth gan y ffyrdd cyn-ddiwydiannol. Er hynny, fe adeiladwyd ffyrdd newydd hefyd, fel Ffordd Penybryn yn yr 1850au, i gysylltu ardaloedd preswyl oedd yn codi gyda chanol y dref. Mae llwybrau yn cyfrannu cymaint i gymeriad Bethesda, yn aml maent yn dirwyn ar lwybr serth yn uniongyrchol i fyny bryn, ac fe gawsant eu sefydlu oherwydd deunydd anffurfiol (Ffigwr 31). Cafodd mwyafrif y llwybrau hyn arwyneb tarmac erbyn hyn, ond mewn mannau mae olion cerrig crynion cynharach i'w gweld.



Ffigwr 31 Llwybr o dan stad Gerlan, gyda chrawiau (ffensys llechi)

Cafodd Chwarel Pantdreiniog effaith hirdymor ar dirwedd y dref. Gosodwyd ei thomenni ar ochr waered y chwarel, gan ymestyn bron cyn belled â'r Stryd Fawr gan atal i'r dref ehangu.


4.4 Hanes Diwylliannol

Tref Gymraeg ei haith yw Bethesda. Yng nghyfrifiad 1871, dim ond trideg dau o'r trigolion o 3252 a anwyd y tu allan i Gymru. Mae'r ymdrechion swyddogol i hybu'r Saesneg fel iaith cynnydd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i'r ugeinfed ganrif yn agwedd o hanes diwylliannol Cymru sydd wedi ei gofnodi'n dda. Mae tystiolaeth i'w weld drwy'r dref, ble mae arwyddion stryd a phlaciau ar adeiladau fel arfer yn defnyddio'r Saesneg (Ffigwr 32). Caiff y Gymraeg ei chyfyngu i blaciau ar gapeli ac i'r gofeb ryfel a gomisiynwyd yn lleol, ond hyd yn oed yma sylwir fod y rhestr o enwau yn 1939-45 yn cyfeirio at enwau Saesneg y strydoedd (Ffigwr 33).






Ffigwr 32 Er mai Cymraeg oedd iaith y trigolion roedd yr arwyddion ar adeiladau y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi eu hysgrifennu yn Saesneg.



Ffigwr 33 Cofeb ryfel Bethesda, trefnwyd yn lleol, gydag arysgrif yn Gymraeg.

5 Ardaloedd Cymeriad



Ffigwr 34 Ardaloedd cymeriad yng nghanol Bethesda.

5.1 Eglwys y plwyf a Chapel Jerusalem

Mae'r eglwys a chapel mwyaf y dref ar dir a ddatblygwyd ar gyrion y dref ar gyn stad Cefn Faes. Dechreuwyd gyda Chapel Jerusalem yn 1842, a ger hwn mae cyn ysgol o'r 1850au (Ffigwr 34). Adeiladwyd yr eglwys ar y llain cyfagos.

Mae'r ardal yma'n rhan o ddatblygiad llinellol y Stryd Fawr ac mae mannau o addoliad yn dylanwadu ar ei chymeriad (Ffigwr 35). Daeth yn ganolbwynt i'r dref yn rhannol oherwydd mai'r eglwys a'r chapel yw'r amlycaf o adeiladau'r dref, ond hefyd gan fod y chapel wedi ei osod yn ôl o'r ffordd y tu ôl i barc bychan (Gweler Ffigwr 17). Dyma ble codwyd y gofeb ryfel yn 1923 (Ffigwr 36). Mae cerrig beddi llechen yn y fynwent yn nodweddiadol o'r ardal.

Collwyd peth o'r cymeriad hanesyddol, a ddeilliodd yn bennaf o golli y cyn Ysgol Genedlaethol oedd yn wynebu'r Stryd Fawr. Ail-ddatblygwyd y safle ar gyfer tai, a thu hwnt iddo mae Tai'r Eglwys, rhes o bedwar o dai brics a adeiladwyd yn yr 1880au.



Ffigwr 35 Eglwys Crist, 1855-56 gan T.H. Wyatt. Mae cerrig beddi llechen yn nodweddiadol o'r ardal



Ffigwr 36 Cofeb Ryfel, cofeb ar arddull y Cenotaph gan R.J. Hughes o Lanfairfechan, adeiladwyd o garreg galch nadd.

5.2 Y Stryd Fawr

Y Stryd Fawr yw canolfan fasnachol Bethesda a ddatblygodd yn yr 1820au ar ochr gogleddol Capel Bethesda (Ffigwr 34). Mae adeiladau deulawr fel enghreifftiau da Gwestai y King's Head a'r Victoria, yn cynrychioli cyfnod cynharaf yr adeiladau sydd wedi goroesi, wedi hyn daeth adeiladau trillawr yn gyffredin yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda llawer â blaen-siopau cyfoes (Ffigwr 37 a gweler Ffigwr 19). Mae'n debyg fod rhai o'r adeiladau trillawr yn cymryd lle tai cynharach bach. Adeiladwyd Rhes Ogwen, y datblygiad mwyaf uchelgeisiol, fel cymysgfa o eiddo preswyl a masnachol ar linell grom. Mae cymeriad y rhes wedi lleihau drwy golli manylion gwreiddiol rhai o'r tai. Saif Capel Bethesda ymysg yr adeiladau mansachol, gan agor yn uniongyrchol i'r stryd, arwydd o'i wreiddiau cynnar.

Roedd y tir rhwng y Stryd Fawr a'r afon wedi ei ddatblygu erbyn 1889. Mae'r ardal yma yn cynnwys Stryd Ogwen a Stryd Glanrafon, yr olaf gyda thai teras un blaen yn agor i'r stryd, gyda adeilad bychan. Mae'r ardal yma yn amlwg yn dlotach na'r Stryd Fawr.



Ffigwr 37 Adeiladau masnachol trillawr ar y Stryd Fawr, yn wreiddiol roedd gan rai o'r rhain rendr. Mae'r blaen-siopau yn bennaf o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

5.3 Stryd John a Phenygraig

Ar ochr ogleddol y Stryd Fawr roedd ardal fechan o ddaear serth o dan domen Chwarel Pantdreiniog, ble y datblygodd lonydd cul ble adeiladwyd tai unigol a pharau yn yr 1850au. (Ffigwr 34). Ar yr ochr ddwyreiniol roedd cyn Gapel y Tabernacl, sydd wedi'i ddymchwel, ond i fyny'r bryn mae Rhes Tabernacl wedi goroesi sef rhes o wyth tŷ.

Yn y pen gwaered, yn wynebu'r Stryd Fawr, mae rhai o'r tai cynharaf sydd wedi goroesi ar y Stryd Fawr, gan gynnwys pâr o dai deulawr ar le amlwg creigiog (Ffigwr 38).



Ffigwr 38 Mae'r math cynharaf o dai sy'n wynebu'r Stryd Fawr yn perthyn gyda Penygraig a Stryd John, sydd yn union y tu ôl iddynt.



Ffigwr 39 10-11 Stryd John, yn anghyffredin gan eu bod yn rhannu talcendo, ac am gadw'r ffenestri codi.

Hanfod cymeriad yr ardal hon yw patrwm cyfyng ac anffufriol o anheddiad, y deuir ato ar hyd lonydd troellog cul a llwybrau ar safle serth (Ffigwr 39 a gweler Ffigwr 5). Mae'r tai deulawr cymharol werinol a'r tai unllawr yn gwrthgyferbynnu gyda'r eiddo masnachol ar y Stryd Fawr, a gyda'r datblygiad mwy cynlluniedig ym Mrynteg.

5.4 Ffordd Bangor

Ymddengys i agoriad gorsaf y rheilffordd ym mhen gogleddol y dref yn 1884 ysgogi datblygu yn y rhan yma o'r dref (Ffigwr 34 a gweler Ffigwr 9). Mae yn cynnwys adeiladau masnachol ar Res Victoria, bloc trillawr mawr o'r enw Tai Penrhyn a thai deulawr eraill. Er bod gan y mwyafrif bellach chwipiad gro neu rendr, cafodd y rhan fwyaf o'r adeiladu yn y rhan yma o'r dref eu hadeiladu gyda brics. Yr enghraifft orau yw'r adeilad nodedig ym mhen gogleddol y dref, Capel Bethania, a adeiladwyd o frics coch llachar trawiadol Rhiwabon (gweler Ffigwr 28).



Ffigwr 40 Mae Rhes Gordon, dyddiedig 1885 yn rhes o'r ansawdd gorau sy'n nodedig am y darnau toredig o gerrig a osodwyd mewn patrwm clytiog, ac am y feranda di-dor ar byst haearn bwrw, dyluniad hunanymwybodol nad yw'n un lleol.

Dyddiad Rhes Gordon yw 1885 ac mae arwyneb o gerrig rwbel mewn patrwm clytiog ar y tai gyda feranda di-dor ar byst haearn bwrw (Ffigwr 40). Gyferbyn mae Rhes Elfed o 1898. Gosodwyd y ddwy res o dai y tu ôl i erddi ffrynt, maent yn breswyl o ran cymeriad ac yn nodi terfyn pendant i'r adeiladu masnachol ar y Stryd Fawr. Dynodwyd Rhes Gordon a Rhes Elfed fel Ardaloedd Cadwraeth. Tu ôl i Res Gordon mae tai teras o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond mae'r orsaf a'r rheilffordd wedi eu hailddatblygu.

5.5 Ffordd Coetmor a Bryntirion

Mae hon yn ardal gymeriad gyda thai teras o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi eu hadeiladu i fyny'r bryn o'r Stryd Fawr ac ar ochr orllewinol tomen lechi Pantdreiniog (Ffigwr 34). Gellir gweld datblygiad cynnar ar fap Bethesda o 1854 (Ffigwr 4) ond fe wnaeth ymwthiad tomen Pantdreiniog newid cymeriad y dirwedd a rhwystro'r ffordd rhwng Bryntirion a Fferm Penybryn. Adeiladwyd mwyafrif y tai sy'n sefyll yn y cyfnod rhwng 1854 a 1889 ac fe adeiladwyd Ffordd Coetmor ar draws yr ardal yma rhwng 1900 a 1907, pan adeiladwyd ysgol Cefn Faes. Mae yno hefyd dai modern.

Mae llwybrau serth sy'n cysylltu gyda'r Stryd Fawr yn nodwedd o'r ardal yma (Ffigwr 41). Mae gan y tai chwipiad gro ac mae llawer o'r ffenestri a'r drysau wedi eu newid (Ffigwr 41). Mae'r tai ar fryn serth gyda'r mwyafrif yn wynebu tua'r gorllewin dros y dyffryn. Yr adeiladau sy'n dominyddu yw'r ddwy ysgol, Ysgol Cefn Faes ac Ysgol Dyffryn Ogwen. Yn nes i fyny'r bryn ac i'r gorllewin, ceir datblygiadau tai ar ôl 1945.




Ffigwr 41 Llwybr serth sy'n arwain i lawr o Goetmor i'r Stryd Fawr.



Ffigwr 42 Tai ym Mryntirion, erbyn hyn gyda chwipiad gro a/neu rendr, rhai wedi ychwanegu cynteddau.

5.6 Penybryn

Datblygwyd tir Fferm Penybryn yn yr 1850au pan grewyd Ffordd Penybryn. Mae'r tai ar Ffordd Penybryn, Ffordd Pant Glas a Stryd Cefnfaes yn ddatblygiadau darniog, mewn rhesi byr, gan fwyaf o ddau neu bedwar tŷ ac wedi eu gosod yn ôl o'r stryd tu ôl i erddi bychain (Ffigwr 43 a 44). Yn gyffredinol, mae'r tai yn fwy na mwyafrif o dai Bethesda ac wedi eu hadeiladu o gerrig rwbel, yn aml mewn blociau mawr gyda thoeau llechi. Mae rhannau o waliau cae wedi goroesi. Adeiladwyd Ysgol Penybryn, ysgol deulawr gyda chwipiad garw, ar safle Fferm Penbryn ar ôl 1914.



Ffigwr 43 Ardaloedd cymeriad ar ochr gogleddol Bethesda.



Ffigwr 44 Adeiladwyd mwyafrif y tai ar Ffordd Penybryn gyda cherrig wedi eu cloddio mewn blociau mawr ac wedi eu hadeiladu un ai mewn parau neu rhes o bedwar.



Figwr 45 Lôn Groes, sydd yn dai blaen sengl yn agor i stryd gul, gyda gerddi ar dir serth yn y cefn.

5.7 Brynteg

Mae'n debyg i Frynteg gael ei ddatblygu yn yr 1860au (dyddiad y capel yw 1864) ar ochr ddwyreiniol Chwarel Pantdreiniog. Yn wreiddiol roedd yr ardal yma'n cynnwys tri bloc o strydoedd cyfochrog ar onglau gwahanol oherwydd llethr y ddaear. Cafodd rhes hir o dai a elwid yn Stryd Cilfodan eu dymchwel, mae'n debyg wrth dirlunio cyn Chwarel Pantdreiniog. Mae capel Brynteg wedi ei addasu ac felly mae cymeriad yr ardal yn un hollol breswyl.

Mae patrwm anheddiad mwy dwys yma nag ar y ffyrdd cyfagos, sydd yn bennaf yn ffyrdd cyn-ddiwydiannol. Mae cymeriad yr adeilad yn golygu tai teras agos gyda blaen ar strydoedd cul,

mae'n debyg nad ydynt yn fwy na'r lled y rheoliadau o 21 troedfedd (Ffigwr 45). Mae gan y tai chwipiad gro a thoeau llechi.

5.8 *Hen Barc*

Mae Hen Barc ar ochr gogledd ddwyrain Bethesda ar y ffordd o Bont y Tŵr i Llanllechid (Ffigwr 43). Mae yma dai ar ochr orllewinol y ffordd oedd wedi eu hadeiladu erbyn 1889. Mae'r rhain yn barau o dai unllawr a adeiladwyd o gerrig rwbel, ail-gread bwriadus o fythynnod brodorol, ond ar ffurf fwy ac fel darlun (Ffigwr 46). Caiff y grogloffft ei goleuo gan ffenestr fechan yn y talcen, ac i'r ochr mae'r corn. Mae llawer o'r tai hyn wedi cadw eu harwynebau cerrig gwreiddiol er bu hefyd golled sylweddol o ran cymeriad gyda rendro, ehangu a newid ffenestri a drysau. Mae'r tai wedi eu gosod yn ôl tu ôl i waliau gerddi gan wynebu caeau ar ochr ddwyreiniol y ffordd.



Ffigwr 46 Mae bythynnod yn Hen Barc wedi eu newid gryn dipyn ond yn wreiddiol bwriadwyd iddynt adfer y traddodiad gwledig lleol.

5.9 *Ffordd Carneddi, Stryd Cilfodan a Bont Uchaf*

Mae'r ardal o gymeriad yma yn dilyn rhan o linell y ffordd cyn-ddiwydiannol rhwng Pont y Tŵr a Llanllechid, a rhan o'r ffordd i Fferm Gerllan (Ffigwr 43). Erbyn 1840 roedd bythynnod wedi eu hadeiladu ar hyd llinell y ffordd yma a sefydlwyd capel y Methodistiaid Calfaidd mor gynnar â 1816 (gweler Ffigwr 3). Er hynny, dymchwelwyd y capel ac ail-ddatblygwyd y safle ac mae cymeriad yr ardal yn awr yn hollol breswyl. Adeiladwyd mwyafrif y tai yn y cyfnod rhwng 1854 a 1889 ar ffurf tai teras, mewn rhesi o hyd at ddeuddeg. Cafodd y rhesi o adeiladau eu codi ar hyd y gyfuchlin, ac mae llwybrau serth, cul ar ddwy ochr y ffordd yn cysylltu gyda Chilfodan ar ochr uchaf y ffordd a Ffordd Ffrydlas ar yr ochr isaf.




Ffigwr 47 Mae gan y tai ar Stryd Cilfodan chwipiad gro gan fwyaf ac fe newidwyd ac ehangwyd rhai ffenestri a drysau gwreiddiol.



Ffigwr 48 Pâr o dai tri-rhaniad ar Stryd Cilfodan, ar ffordd ble mae tai llai yn fwy amlwg, wedi eu gosod yn ôl tu cefn i waliau o rwbel meini maes.

Ceir amrywiaeth o dai yn yr ardal yma o gymeriad sy'n arwydd o wahaniaeth cymdeithasol. Mae rhai tai, efallai y rhai cynharaf, yn agor yn uniongyrchol i'r stryd, tra fo eraill wedi eu gosod yn ôl y tu cefn i waliau gerddi (Ffigwr 47 a 48 a gweler Ffigwr 14). Mae bron y cwbl o'r tai yn ddeulawr gyda chwipiad gro a thoeau llechi, ond mae rhai tai gyda blaen cerrig yn

parhau sy'n dangos gwaith maen o haenau bras a rwbel damweiniol. Mae yna rai cynteddau llechi mewn arddull Gothig. Mae gan waliau gerddi hefyd chwipiad gro, neu maent wedi eu rendro neu eu hailadeiladu, ac felly ychydig o gyfraniad a wnânt i gymeriad cyffredinol yr ardal, er bod rhai gweddillion o waliau caeau cyn-ddiwydiannol.



Ffigwr 49 Ardaloedd o gymeriad ar ochrau dwyreiniol a deheuol Bethesda.

5.10 Ffordd Ffrydlas, Ffordd Pant a Garneddwen

Mae tair ffordd cyn-ddwydiannol yma yn ffurfio ardal o ddatblygu llinellol, yn bennaf yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Ffigwr 49). Er hynny, mae Fferm Pant Ffrydlas a thŷ allan wedi goroesi (gweler Ffigwr 10). Ychydig iawn o ddatblygu oedd erbyn 1840, ond roedd yn cynnwys rhes fer o dai unllawr, Frondeg, ar Ffordd Pant, sydd bellach wedi eu haddasu gryn dipyn.

Ar Garneddwen a Ffordd Ffrydlas yn gyffredinol ceir tai deulawr tri rhaniad o ansawdd uwch o'i gymharu gyda mwyafrif tai Bethesda (Ffigwr 50). Mae llawer gydag arwyneb o gerrig, yn cynnwys gwaith maen arwyneb carreg ac addurn brics. Ger y pen deheuol mae'r cyn ficerdy, Plas Ogwen erbyn hyn, gyda thai modern o'i amgylch.



Ffigwr 50 Tai tri rhaniad ar Ffordd Ffrydlas, yn yr enghraifft yma gydag architrafau rendr llyfn, yn cynrychioli tai o ansawdd uwch ym Methesda'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

5.11 Glan Ffrydlas ac Adwy'r Nant

Adeiladwyd y tai cyngor cynharaf ar safle tir glas i'r de o'r eglwys (Ffigwr 49). Mae Adwy'r Nant yn stad bach o dai gyda'r dyddiadau 1932 a 1934 arnynt, mewn rhesi o dri i bump tŷ ac wedi eu cynllunio ar arddull pentref-gardd (Ffigwr 51). Mae Glan Ffrydlas ychydig yn ddiweddarach ac yn cynnwys parau neu grwpiau o bedwar tŷ. Mae gan y tai cyngor hyn i gyd waliau chwipiad gro gyda thoeau llechi a chyrn brics. Maent yn cyflwyno geirfa bensaernïol newydd i dai'r dref ar ffurf talcendau yn Adwy'r Nant, ffenestri crymion talcen croes a bargodion yng Nglan Ffrydlas, ond maent hefyd yn parhau gyda manylion traddodiadol fel

canopiau cynteddau. Er bod y ffenestri a'r drysau wedi eu newid, mae'r ardal yma wedi cadw cymeriad y 1930au.



Ffigwr 51 Tai cyngor Adwy'r Nant yn dyddio o 1934, gyda waliau chwipiad gro, ond yn cadw canopiau cyntedd ar ysgwydd nodweddiadol.



Ffigwr 52 Ffermdy Abercaseg. Mae'r cyntedd llechen yn fwy diweddar, manylyn o'r cyfnod diwydiannol ar ffermdy cyn-ddiwydiannol.

5.12 Abercaseg a Pant

Datblygwyd Abercaseg a Phant yn bennaf yn ail hanner yr ugeinfed ganrif (Ffigwr 49). Felly, mae'r cymeriad cyffredinol yma yn fodern, ond mae yma adeiladau o ddiddordeb pensaernïol arbennig, yn enwedig Fferm Abercaseg a Phont Abercaseg (Ffigwr 52). Mae'n ymestyn at Ffordd Caergybi, gaiff ei nodi gan garreg filltir wreiddiol, ble mae wal derfyn o gerrig rwbel ac eglwys Gatholig Rufeinig o'r 1960au.

5.13 Braichmelyn

Mae Braichmelyn yn rhan o'r hen ffordd i Lanllechid o Bont y Tŵr. Yn eiddo i Stad y Penrhyn, roedd y anheddiad wedi ei ddechrau erbyn 1840 pan roedd tai ar hyd ochr y ffordd a datblygiad ar wahân yng Nghaerberllan. Mae gan yr ardal yma gymeriad diwydiannol cynnar, gyda bythynnod unllawr yn tra-arglwyddiaethu, y math cynharaf a mwyaf sylfaenol o dai diwydiannol (Gweler Ffigwr 11 a 12). Dynodwyd y tai unllawr ym Mraichmelyn fel Ardal Gadwraeth. Roedd datblygiadau pellach yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan barhaodd y gwaith adeiladu ar hyd y ffordd, a gosodwyd Rhes James i'r de. Mae gan yr olaf dai unllawr a deulawr. Mae Braichmelyn a Chaerberllan yn rhannu cymeriad stad gyda manylion fel canopiau cyntedd ar ysgwydd â thoeau clwt a chyrn brics, yn y ddau achos mae'n debyg fod newidiadau wedi eu gwneud i'r tai yn nes ymlaen yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Ffigwr 53). Mae drysau a ffenestri wedi eu newid ac mae unffurf y tai cynnar wedi erydu gan ambell i chwipiad gro neu rendr sment. Pan gawsant eu hadeiladu cafodd y tai eu wynebu gyda cherrig, ond mae llawer wedi cael chwipiad gro neu rendr sment.



Ffigwr 53 Bwthyn ym Mraichmelyn Mae ei agoriadau i ffwrdd o'r canol yn ôl traddodiad brodorol. Mae wal lechi yr ardd a'r corn brics yn fwy diweddar.

Aeth y gwaith adeiladu ymlaen i ddechrau'r ugeinfed ganrif. Gyferbyn â'r tai cynnar ym Mraichmelyn mae datblygiad bach o dai cyngor o'r 1930au sydd ymysg y tai cymdeithasol cynharaf ym Methesda. Mae gan y tai hyn eirfa bensaernïol wahanol ar ffurf waliau brics a chwipiad gro ar waliau, o amgylch y drysau yn syml ac wedi eu rendro'n llyfn gyda meini clo a thalcendoau. Mae'r gwrthgyferbyniad mewn safonau rhwng y bythynnod unllawr a'r tai cyngor yn dangos y cynnydd a wnaed mewn tai diwydiannol a throsglwyddo'r fenter o'r tîrfeddianwr i'r sector cyhoeddus i gwrdd ag anghenion tai y dref.

5.14 Gerlan

Mae Gerlan yn stad a ddatblygwyd o'r 1865, ond gyda gwreiddiau cynharach o amgylch cyn Fferm Gerllan (Ffigwr 49 a gweler Ffigwr 15). Dymchwelwyd dau cyn gapel, Gerlan a Threflys, ac mae Ysgol Gerlan wedi cau ond fe gadwyd yr adeilad, enghraifft brin o lechi crog ym Methesda. Felly, mae bron y cwbl o'r adeiladau yn dai. Adeiladwyd Gerlan ar ochr bryn, ac mae'r terasau unigol wedi eu gosod ar hyd y gyfuchlin ac yn gynyddol yn dringo'r bryn mewn modd sy'n nodweddiadol o'r Gymru ddiwydiannol. Mae llwybrau yn rhan bwysig o gymeriad Gerlan, gan gysylltu Stryd y Ffynnon a Stryd Goronwy gyda Ffordd Abercaseg (gweler Ffigwr 31).

Mae bythynnod unllawr yn Fferm Gerlan ac ar Ffordd Gerlan (Ffigwr 54). Er hynny, mae'r mwyafrif yn rhesi o dai deulawr sy'n nodweddiadol wedi eu gosod yn ôl o'r stryd tu ôl i waliau gerddi neu yn achos Stryd y Ffynnon a Stryd Goronwy, wedi eu hadeiladu yn gyfangwbl oddi ar y stryd gyda llwybr mynediad cyffredin a chwrt yn y cefn.



Ffigwr 54 Bwthyn cynnar yng Ngerlan.

6 Datganiad Arwyddocâd

Bethesda yw canolfan drefol dyffryn Ogwen ac mae'n un o'r nifer fechan o anheddiadau chwareli llechi gogledd Cymru a dyfodd yn dref. Daeth i fodolaeth oherwydd Chwarel Lechi'r Penrhyn, a leolir ar ochr arall yr afon, a thyfodd ger ochr Ffordd Caergybi ble gwelodd tirfeddianwyr eu cyfle i osod tir ar gyfer adiladu. Sefydlwyd Bethesda yn wreiddiol gan y chwarelwyr a phobl leol eraill ac mae yn nodedig fel anheddiad a grewyd gan bobl ac a enwyd ar ôl y prif gapel rhywbeth hynod mae'n ei rannu gyda Bethel, Saron a Charmel.

Goroedd dirwedd cyn-ddiwydiannol Bethesda yn y rhwydwaith ffyrdd, sy'n cynnwys pontydd hanesyddol ym Mhont y Tŵr a Phont Abercaseg, a'r ffermydd, yn cynnwys Abercaseg, Pant Ffrydlas a Gerllan. Fel tref ddiwydiannol mae Bethesda yn gyfuniad o ddatblygiadau darniog a datblygiadau a fanteisiodd ar gyfleoedd oedd yn adlewyrchu ffyniant y diwydiant lleol. Un canlyniad yw fod Bethesda yn arddangos datblygiad cronolegol tai diwydiannol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mewn tref sy'n cynnwys tai yn bennaf i chwarelwyr, mae gwahaniaethau cymdeithasol cynnil i'w gweld ar sail graddfa a pherthynas y tai gyda'r stryd a thai eraill. Adeiladwyd stoc tai y dref o ddeunyddiau lleol ac mae'r modd deheuig y defnyddiwyd llechi, er enghraifft i gynteddau storm math Gothig, yn nodwedd leol arbennig.

Daeth Bethesda yn ganolfan economaidd a diwylliannol i Ddyffryn Ogwen, a gellir gweld hyn yn y Stryd Fawr hir gyda gwestai o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a blaen-siopau a chapeli ac eglwys uchelgeisiol. Mae yn rhan annatod o'r tirlun chwareli llechi ehangach gyda'i leoliad yn cael ei ychwanegu gan Chwarel Lechi'r Penrhyn ar ochr arall y dyffryn.

7 Argymhellion


Mae eisoes trideg pedwar o adeiladau rhestredig ym Methesda a phedair ardal gadwraeth fach. Er na chafodd unrhyw adeiladau oedd heb eu dynodi eu hadnabod i'w hargymell i gael statws adeilad rhestredig, mae lle i ymestyn yr Ardaloedd Cadwraeth ym Methesda.

Er hynny, mae yna heriau i adnabod mannau addas. Mae colli cymeriad yn broblem mewn tref ble mae mwyafrif yr adeiladau yn dai gyda'r ffenestri a'r drysau wedi eu newid, a ble mae golwg unffurf y rhesi wedi dirwyio gan amrywiaeth o driniaethau arwyneb modern i'r waliau. Mae'n anochel hefyd y collwyd rhai adeiladau sydd â'u chymeriad hanesyddol wedi gostwng, y rhai pwysicaf yw'r capeli. Mewn sawl achos bydd cyn safleoedd capeli wedi cael eu hail-ddatblygu. Y colledion mwyaf sylweddol yw dau gapel yng nghanol y dref sef Tabernacl a Siloam gan eu bod wedi gwneud cyfraniad mawr i gymeriad hanesyddol canol y dref. Mae capeli ar y cyrion yn cynnwys Salem ar Ffordd Carneddi, Treflys a Gerlan ac roeddent i gyd yn adeiladau o bwys yn eu hardaloedd ond maent wedi eu dymchwel. Mae Brynteg wedi ei drosi yn wael. Mae colli'r rhain yn sylweddol gan fod lleoliad y capel ymysg tai diwydiannol yn nodwedd hanfodol o anheddiadau diwydiannol yng Nghymru.

Mae lle i ymestyn Ardal Gadwraeth Braichmelyn i gynnwys tai ar Rhes James. Mae gan Rhes James amrywiaeth o dai, unllawr a deulawr, wedi eu hadeiladu mewn rhesi, parau a weithiau yn unigol, ac mae rhai wedi cadw manylion cynnar gan gynnwys cynteddau llechi (Ffigwr 55). Mae'n ymddnagos fod y datblygiad ar hyd y ffordd wedi bod yn ddarniog, yn debyg i Fraichmelyn ei hun ond yn fwy diweddar, gydag amrywiaeth ehangach o fath o dai.




Ffigwr 55 Manylion pensaernïol yn Rhes James



Ffigwr 56 Ardal Gadwraeth Braichmelyn a'r estyniad arfaethedig.

Mae Ardal Gadwraeth Lôn Graig yn cynnwys detholiad cryno o'r adeiladau ar ochr ogleddol y Stryd Fawr. Gellid ymestyn hyn i gynnwys y cyfan o'r ardal rhwng y Stryd Fawr a chyn domen Chwarel Pantdreiniog (Ffigwr 57). Byddai modd hefyd ei ymestyn i gynnwys Tai Tabernacl, er nid safle'r capel ei hun, sydd wedi ei ail-ddatblygu. Mae Tai Tabernacl ar ochr ddwyreiniol Ardal Gadwraeth Lôn y Graig ac a adeiladwyd ar safle cyfyng i'r gorllewin o Ffordd Penybryn. Ar y Stryd Fawr, gyferbyn â Lôn y Graig, mae adeiladau masnachol trillawr, ac mae rhai o'r rhain wedi cadw blaen-siopau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a ffenestri codi ac mae un, cyn fanc, wedi cadw llawr is rwstig (Gweler Ffigwr 19 a 37). Dylid hefyd ystyried ychwanegu'r adeiladu hyn i'r Ardal Gadwraeth sy'n bodoli.



Ffigwr 57 Ardal Gadwraeth Lôn y Graig ac estyniad arfaethedig

8 Cyfeiriadau

Ffynonellau archifau, Gwasanaeth Archifau Gwynedd

X/Plans/S/10, Cynllun o Fethesda a Llanllechid, 1854.

XM/55/24, Prydles tir i adeiladu Fferm Penybryn, 1854.

XM/55/31, Cytundeb gyda John Robert Jones, chwarelwr, ynglŷn â thir i adeiladu Fferm Penrhyn, 1856.

XS3270/3, Ffotograff o'r Stryd Fawr, dechrau'r ugeinfed ganrif.

XS3270/5, Ffotograff Ysgol Dyffryn Ogwen.

Ffynonellau cartograffig

Arolwg Degwm Llanllechid, 1840.

Mapiau cyfres sirol Arolwg Ordnans, 1889, 1900, 1914.

Ffynonellau printiedig

Davidson, A., Jones, G., a Gwyn, D., 1994, *Gwynedd Quarrying Landscapes: Slate Quarries..* Adroddiad Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd 129.

Gwyn, David, 2001, 'The industrial town in Gwynedd', *Hanes Tirwedd* 23, 71-89.

Gwyn, David, 2006, *Gwynedd Inheriting a Revolution*. Chichester: Phillimore.

Gwyn, David, 2015, *Welsh Slate: Archaeology and History of an Industry*. Aberystwyth: RCAHM Wales.

Haslam, Richard, Orbach, Julian and Voelcker, Adam, 2009, *The Buildings of Wales: Gwynedd*. Llundain: Yale University Press.

Hughes, Stephen, 2003, 'Thomas Thomas, 1817-1888: the first national architect of Wales', *Archaeologia Cambrensis* 152, 69-166.

Lindsay, Jean, 1974, *A History of the North Wales Slate Industry*. Newton Abbot: David & Charles.

Lowe, Jeremy, 1985, *Welsh Industrial Workers Housing*. Caerdydd: Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Richards, Alun, 2007, *Gazeteer of Slate Quarrying in Wales* Pwllheli: Llygad Gwalch.

Ffynonellau ar-lein

Ymddiredolaeth Archaeolegol Gwynedd, Cymeriad Tirwedd Hanesyddol - ar-lein yn <http://www.heneb.co.uk/hlc/arfon/arfon12.html>

Ymddiredolaeth Archaeolegol Gwynedd, Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, ar-lein yn <http://www.cofiadurcahcymru.org.uk/>

Cofnod Henebion Cenedlaethol, RCAHM Cymru ar-lein yn <http://coflein.gov.uk/>

Atodiad I: asedau treftadaeth dynodedig ym Methesda


Adeiladau Rhestredig	Cyfeirnod yr adeilad rhestredig	Gradd
Capel Bethania	18384	II
Gwesty'r Fictoria	18385	II
Tafarn y King's Head	18417	II
11 Stryd John	18415	II
10 Stryd John	18414	II
18 Ffordd Penybryn	18416	II
16 Ffordd Penybryn	18409	II
Capel Jerusalem	18387	I
Eglwys Crist	18388	II
Capel Bethesda	4145	II
1 Rhes Ogwen	18389	II
2 Rhes Ogwen	18390	II
8 Rhes Ogwen	18391	II
10 Rhes Ogwen	18392	II
Cofeb goffa i'r rhyfel a'r wal oddiamgylch	18386	II
17 Rhes Ogwen	18393	II
22 Rhes Ogwen	18394	II
Gwesty'r Douglas Arms yn cynnwys rheiliau	18395	II
Carreg filltir ger Clwb Pêl-droed Bethesda	18379	II
Pont y Gaseg	18380	II
Ffermdy Abercaseg	18381	II
Pont Abercaseg	18382	II
1 Caerberllan	18401	II
2 Caerberllan	18402	II
3 Caerberllan	18403	II

4 Caerberllan	18404	II
5 Caerberllan	18405	II
6 Caerberllan	18406	II
7 Caerberllan	18407	II
8 Caerberllan	18408	II
9 Caerberllan	18410	II
10 Caerberllan	18411	II
11 Caerberllan	18412	II
12 Caerberllan	18413	II

Ardaloedd Cadwraeth	
Rhes Gordon	Ffigwr 59
Rhes Elfed	Ffigwr 59
Lôn y Graig	Ffigwr 57
Braichmelyn	Ffigwr 56



Ffigwr 58 Adeiladau rhestredig ym Methesda



Ffigwr 59 Ardaloedd Cadwraeth Rhes Elfed a Rhes Gordon